

WWF

CYMRU

Size of Wales
Maint Cymru

CYMRU A CHYFRIFOLDEB BYD-EANG II

ÔL-TROED DATGOEDWIGO BYD-EANG CUDD CYMRU: CAMAU GWEITHREDU DROS NEWID

AWDURON

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan elusen Maint Cymru ac elusen WWF, a chafodd ei lunio gan Dr Steve Jennings o gwmni Alauda Consulting Ltd.

Awduron cyfrannol: Barbara Davies-Quy, Angie Kirby, Scout Astley Jones (Maint Cymru) a Shea Buckland-Jones, WWF Cymru.

Dyluniad gan: signeldesign.co.uk

Mae Wales and Global Responsibility II © 2026 gan elusen Maint Cymru a WWF Cymru wedi'i drwyddedu dan CC BYNC 4.0. Mae hwn yn eithrio pob delwedd a graffeg, sydd wedi'u cynnwys dan eu hawlfraint neu drwydded Creative Commons eu hunain. Mae delweddau heb fod yn stoc wedi'u priodoli i'w crewyr.

Ariannwyd yr adroddiad hwn gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree a Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi. Nid yw cynnwys y cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu eu safbwynt na'u barn o reidrwydd.

WWF CYMRU

Size of Wales Maint Cymru

CIPS Foundation

The Joseph Rowntree Charitable Trust

CYNNWYS

CEFNDIR	4
CANFYDDIADAU CYFFREDINOL ALLWEDDOL	6
CIPLUN BYD-EANG	8
SOIA	9
OLEW PALMWYDD	11
CIG EIDION	14
COCO	22
COFFI	27
POBLOEDD BRODOROL: Y (AVÁ) GUARANI ÑANDEVA	30
Y CYNNYDD HYD YMA O RAN GWNEUD CYMRU'N GENEDL DIM DATGOEDWIGO	34
ARGYMHELLION	36
DULLIAU	40
ÔL-NODIADAU	42

Cydnabyddiaeth hawlfraint © camilodiazphotography / WWF Colombia / WWF-UK

Cydnabyddiaeth Hawlfraint Clawr Blaen: © Andre Dib / WWF-Brazil

CEFNDIR

Mae coedwigoedd a chynefinoedd trofannol yn hanfodol i iechyd byd-eang, gan chwarae rôl allweddol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd drwy dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer a darparu gwasanaethau ecosystem fel puro aer a dŵr, rheoleiddio tymheredd, a darparu cysgod, bwyd a meddyginiaeth. Er eu pwysigrwydd, collodd y blaned mwy na 4.3 miliwn hectar o goedwigoedd trofannol cynradd[1] yn 2025 - sef 11 maes pêl-droed bob munud[2]. Er bod hon yn ardal lai o faint na'r flwyddyn flaenorol, mae'n dal i fod yn uchel yn hanesyddol. Mae hyd at 80 y cant o'r holl goedwigoedd a gollwyd a'r tir a drawsnewidiwyd yn fyd-eang wedi'i achosi gan brosesau cynhyrchu nwyddau amaethyddol[3].

Cydnabyddiaeth hawlfraint © Andre Dib / WWF-Brazil

Mae Cymru'n mewnforio meintiau sylweddol o nwyddau amaethyddol a choedwigol, y mae rhai ohonynt yn gyrru prosesau datgoedwigo a dinistrio cynefinoedd, ac yn cael effaith gwael ar gymdeithas tramor. Caiff y nwyddau hyn eu defnyddio yng Nghymru a'u gwerthu ymlaen i wledydd eraill. Ceir hyd iddynt yn gyffredinol yn ein bywydau bob dydd, fel y soia "cudd" a ddefnyddir i fwydo'r ieir a'r moch yr ydym yn eu bwyta, yr olew palmwydd a ddefnyddir mewn sebon neu fargarin, neu'r coffi a yfwn i ddeffro yn y bore. Oherwydd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr cynyddol, yr effeithiau ar y dŵr sydd ar gael a thywydd lleol, a dinistrio ecosystemau, mae datgoedwigo'n tanseilio cydnerthedd a diogelwch y cadwyni cyflenwi y mae dinasyddion Cymru'n dibynnu arnynt[4], gan wthio prisiau bwyd i fyny a chreu cadwyni cyflenwi anwadal.

Yn 2021, ymrwymwyd 146 o wledydd gan ddatganiad Arweinwyr COP26 Glasgow i "atal a gwrthdroi colled coedwigoedd a dirywio tir erbyn 2030 tra'n cyflawni datblygu cynaliadwy a hyrwyddo trawsnewid gwledig cynhwysol." Er yr ymrwymiad lefel uchel hwn, a mentrau gwirfoddol gan gynnwys ardystio moesegol, ymrwymiadau corfforaethol a chymelliadau marchnadol, nid yw'n ymddangos bod cyfradd newid y defnydd tir a ysgogir gan nwyddau yn lleihau, ac mae'r effeithiau negyddol ar bobl leol, yn enwedig Pobloedd Brodorol a natur, yn parhau. Yn y cyfamser, cafwyd oedi i basio'r is-ddeddfwriaeth yn San Steffan a fyddai'n sefydlu'r Rheoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd. Bu oedi hefyd i weithredu Rheoliad Datgoedwigo'r Undeb Ewropeaidd, ond mae disgwyl i hwnnw ddod i rym ar 30 Rhagfyr 2026 ar gyfer gweithredwyr mawr a chanolig, a 30 Mehefin 2027 ar gyfer mentrau bach. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth i weithredu anghenion diwydrwydd dyladwy datgoedwigo dan Ddeddf Amgylchedd 2021 y DU, a chaiff manylion pellach eu cyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a diogelu'r cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol, mae'n bwysig sicrhau bod cadwyni cyflenwi'n deg, yn foesegol a chynaliadwy am nifer o resymau, gan gynnwys rhwymedigaeth Cymru i sefydlu ei hun fel Cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[5]. Mae gan Gymru ddyletswydd statudol i ystyried sut mae ei harferion yn effeithio ar gynefinoedd byd-eang, ac mae gennym gyfle i ddangos arweinyddiaeth ar lefel byd-eang ar gyfer gyrru cynaliadwyedd ar draws cadwyni cyflenwi nwyddau ledled y byd.

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r galw yng Nghymru am nwyddau sy'n "risg i goedwigoedd" sy'n gyrru prosesau datgoedwigo a thrawsnewid cynefinoedd yn y gwledydd sy'n eu cynhyrchu, gan gyfrannu at golli bioamrywiaeth a chynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr a phroblemau cymdeithasol. Rydym yn canolbwyntio ar bum nwydd amaethyddol – coco, olew palmwydd, cig eidion, soia a choffi. Ar gyfer pob un yn ei dro, rydym yn asesu ei darddiad ac ôl-troed tir, a'r risg datgoedwigo sy'n gysylltiedig â'i fewnforio i Gymru. Mae hwn yn ddiweddariad i'r adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang a gyhoeddwyd yn 2021[6], heb y nwyddau ar wahân i fwyd. Fel y dywedodd cyn-Weinidog Newid Hinsawdd Cymru, Julie James, ar y pryd, "Rhaid inni wneud rhywbeth i leihau, a gobeithio dileu, ein hôl-troed tramor yn ogystal ag adref[7]." Mae'r diweddariad hwn yn caniatáu inni olrhain y cynnydd a wnaed ac asesu beth sydd angen ei wneud nesaf.




CANFYDDIADAU CYFFREDINOL ALLWEDDOL

Mewn blwyddyn arferol rhwng 2011-25, roedd angen darn o dir maint Sir Benfro a Cheredigion gyda'i gilydd (338,977 o hectarau) i dyfu dim ond pum nwydd a fewnforiwyd i Gymru: soia, olew palmwydd, coco, cig eidion a choffi. Mae hwn ychydig yn llai na'r 352,000 o hectarau'r flwyddyn a oedd eu hangen ar gyfartaledd rhwng 2011 a 2018, gan adlewyrchu'n bennaf gostyngiad mewn mewnforion cig eidion, sydd â'r ôl-troed tir mwyaf o bell ffordd o'r pum nwydd dan sylw.

Cydnabyddiaeth hawlfraint © Andre Dib / WWF-Brazil

ERS YR ADRODDIAD GWREIDDIOL (A GYFEIRIODD AT 2011-18) CAFWYD LLEIHAD SYLWEDDOL MEWN MEWNFORION AC ÔL-TROED TIR CIG EIDION, CYNNYDD SYLWEDDOL MEWN MEWNFORION SOIA, A PHRIN UNRHYW NEWID I FEWNFORION GWEDDILL Y NWYDDAU YN YSTOD Y CYFNOD. GYRRWYD Y CYNNYDD YN Y GALW AM SOIA YN RHANNOL GAN Y CYNNYDD MAWR MEWN FFERMIO DOFEDNOD DWYS YNG NGHYMRU.


- Cig eidion a soia sydd â'r olion traed mwyaf, sef 121,000 o hectarau a 114,000 o hectarau'r flwyddyn ar gyfartaledd yn eu tro. Gyda'i gilydd, mae ôl-troed y ddau nwydd amaethyddol hyn yn unig gyfwerth ag ardal maint Sir Gaerfyrddin.
- Mae bron hanner yr arwynebedd tir (47 y cant), sef ardal maint Sir Benfro, mewn gwledydd sydd wedi'u categoreiddio fel rhai â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol difrifol. Golyga hyn fod cadwyni cyflenwi sy'n darparu nwyddau i Gymru yn y gwledydd hyn yn creu risg datgoedwigo, trawsnewid ecosystemau naturiol, a/neu broblemau cymdeithasol fel llafur plant a llafur dan orfod, a chamddefnyddio hawliau Pobloedd Brodorol.
- Olew palmwydd a choffi yw'r nwyddau sy'n fwyaf tebygol o ddod o wledydd lle mae'r risg cynhyrchu'n uchel neu uchel iawn. Yn eu tro, mae o leiaf 81 y cant a 76 y cant o'r tir a ddefnyddir i'w tyfu mewn gwledydd a ystyrir yn risg uchel neu risg uchel iawn. Fodd bynnag, mae'r arwynebedd risg uchel a ddefnyddir i gynhyrchu soia (70,000 o hectarau, neu 63 y cant o gyfanswm ôl-troed tir soia) bron dwywaith cymaint ag ôl-troed olew palmwydd.



CODODD CYFARTALEDD YR ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR SY'N GYSYLLTIEDIG Â MEWNFORION DATGOEDWIGO I 1.40 MILIWN O DUNELLI O CO_2e


- Rhwng 2019 a 2025, 1.40 miliwn o dunelli o CO2e oedd cyfartaledd blynyddol yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gysylltiedig â thrawsnewid coedwigoedd ac ecosystemau naturiol eraill ar gyfer cynhyrchu'r soia, coffi, coco ac olew palmwydd a ddefnyddiwyd yng Nghymru. Mae hwn cyfwerth ag oddeutu 25% o allyriadau trafnidiaeth Cymru yn 2023[8]. Roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd am y cyfnod 2011-18, sef 1.37 miliwn o dunelli o CO2e [9] y flwyddyn.
- Brasil sydd â'r ôl-troed tir mwyaf o fewnforion Cymru, sef bron 49,000 o hectarau, a hynny oherwydd mewnforion soia, cig eidion a choffi. Hefyd, mae gan Gymru olion traed sylweddol yn yr Ariannin (soia), Iwerddon (cig eidion), Indonesia (olew palmwydd a choffi), a Côte d'Ivoire (coco).

OLION TRAED TIR TRAMOR MWYAF CYMRU Y DEG GWLAD UCHAF MEWN HECTARAU



ARDAL GYFATEBOL O DIR TRAMOR A DDEFNYDDIWYD AR GYFER MEWNFORION CYMRU FESUL NWYDD Y FLWYDDYN


SIR WRECSAM AC YNYS MÔN	CIG EIDION	121,419 ha
CONWY	SOIA	113,948 ha
CASTELL-NEDD PORT TALBOT	OLEW PALMWYDD	46,674 ha
SIR FFLINT	COCO	45,404 ha
MERTHYR TUDFUL	COFFI	11,523 ha
SIR BENFRO A CHEREDIGION	CYFANSWM	338,977 ha




Cydnabyddiaeth hawlfraint © iStock / Rich Carey

CIPLUN BYD-EANG

Mae Cymru'n mewnforio nwyddau amaethyddol a choedwigol o lawer o wledydd ar draws y byd. Mae gan bob gwlad sy'n allforio i Gymru lefelau gwahanol o ddatgoedwigo, trawsnewid cynefinoedd a risgiau cymdeithasol (fel llafur plant, llafur dan orfod, neu gamddefnyddio hawliau Pobloedd Brodorol). Mae cyfanswm ôl-troed tir tramor Cymru ar gyfer y pum nwydd cyfwerth â 338,977 o hectarau'r flwyddyn.




Mae'r graffig yn rhoi crynodeb o'r gwledydd lle mae'r ôl-troed tir. Rhoddir categori risg i bob gwlad sy'n allforio, o bedwar ar gyfer risg isel, i'r uchafswm o 12 ar gyfer risg uchel iawn o ran datgoedwigo a/neu broblemau cymdeithasol. Caiff sgôr y risg ei gyfrifo yn unol â data pob gwlad ar gyfer colli coed oherwydd datgoedwigo, datgoedwigo fel canran o'r goedwig gyfan, a safonau llafur - gweler yr adran Dulliau am fwy o fanylion.

SOIA

- **Blawd (69 y cant) a ffa (22 y cant) ar gyfer bwyd da byw yw'r rhan fwyaf o fewnforion soia.** Dim ond naw y cant o'r mewnforion sy'n gynnyrch a ddefnyddir yn uniongyrchol gan bobl, fel tofu, llaeth soia a soia wedi'i ymwreiddio mewn cynnyrch anifeiliaid, e.e. cyw iâr a fewnforiwyd o Wlad Thai.
- Mae mewnforion soia wedi codi'n gynyddol ers 2011, gyda chynnydd bob blwyddyn o fwy na 2,000 o dunelli ar gyfartaledd. **Y rheswm dros hyn yw bod nifer yr adar mewn unedau dofednod dwys yng Nghymru wedi cynyddu o 8.1 miliwn yn 2011 i 12.1 miliwn yn 2025. Mae cyfran Cymru o gynhyrchiant dofednod y DU wedi cynyddu hefyd (o 5 y cant i 6.6 y cant)[10].**

MAE CYMRU'N GYFRIFOL AM FEWNFORIO 186,000[12] O DUNELLI O SOIA BOB BLWYDDYN

FFIGUR 2: NEWID YN MEWNFORION SOIA CYMRU 2011-25 MAE'R CYNNYDD YN ARWYDDOCAOL YN YSTADEGOL




Cydnabyddiaeth hawlfraint © Maint Cymru / Caeau soia yn Parana sydd bellach yn gorchuddio Fforest yr Iwerydd

YN GYFFREDINOL, CHWECH Y CANT YW CYFRAN CYMRU O FEWNFORION SOIA Y DU, SY'N UWCH NA'I CHYFRAN O GYNNYRCH DOMESTIG GROS Y DU A'I PHOBLOGAETH. Y SECTOR DA BYW CYMHAROL FAWR YNG NGHYMRU YW'R RHESWM DROS HYN.

- Amcangyfrifir bod diwydiant dofednod Cymru'n gyfrifol am ddefnyddio 52 y cant o'r bwyd soia a fewnforiwyd i Gymru ar gyfer da byw, a bod ei diwydiant llaeth yn defnyddio 27 y cant. Mae'r ddau sector wedi cynyddu eu cyfrannau (a'u cyfansymiau) ers yr adroddiad blaenorol (48% oedd yr amcan ddefnydd ar gyfer dofednod, a 20% ar gyfer llaeth).
- Mae'r rhan fwyaf o'r ôl-troed tir hwn – o leiaf dau draean – mewn gwledydd â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a/neu broblemau cymdeithasol, gan gynnwys Paraguay, Brasil a'r Ariannin. Ychydig iawn o newid a gafwyd i'r proffil cyrchu dros amser, gyda chrynhoad y cyflenwad yn dod o wledydd â risg uchel a risg uchel iawn.
- Mae amcangyfrif diweddar yn awgrymu dim ond 22 y cant o fewnforion soia y DU sydd wedi'u cadarnhau'n rhai nad ydynt yn dod o darddiad dim datgoedwigo na thrawsnewid tir[11]. Cysylltir 46 y cant arall â safonau cynaliadwyedd ond mae'n bosibl nad yw wedi'i ardystio'n gorfforol ei hun; nid yw hynny'n sicrhau nad yw'r deunyddiau a fewnforiwyd yn gysylltiedig â datgoedwigo neu broblemau cymdeithasol difrifol. (Gweler Tabl 1 am gymhariaeth o fodelau cadwyni cyflenwi soia a weithredwyd gan RTRS). Mae cyfrannau tebyg yn debygol o fod yn berthnasol i Gymru.
- 1.02 miliwn o dunelli o CO2e oedd cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëwyd o ganlyniad i newid defnydd tir, megis datgoedwigo, er mwyn tyfu mewnforion soia Cymru bob blwyddyn. Daw'r cyfan bron o newid defnydd tir yn Lladin-America – yr Ariannin, Brasil a Paraguay.

FFIGUR 3: ÔL-TROED TIR TRAMOR AR GYFER SOIA 2011-2025



TABL 1: MODELAU ARDYSTIO CADWYNI CYFLENWI DAN SAFONAU RTRS (Y FORD GRON AR SOIA CYFRIFOL)[13]


Model Ardystio RTRS	Beth mae hyn yn ei olygu	Manteision / Anfanteision
Cadwyn gystodaeth ar wahân	Mae soia a ardystiwyd wedi'i gadw ar wahân o soia heb ei ardystio ar hyd y gadwyn gyflenwi. Ni chaniateir cymysgu soia a ardystiwyd â soia confensiynol.	Mae hyn yn golygu bod yr holl soia yn y cynnyrch terfynol wedi'i ardystio'n gynaliadwy, er y gallai ddod o sawl ffynhonnell gwahanol. Y model ardystio cryfaf. Yn cefnogi proses olrhain ac yn lleihau risg datgoedwigo. Yn ddrutach na Chydbwysedd Màs / Credydau
Cadwyn Gystodaeth Cydbwysedd Màs	Gellir cymysgu soia a ardystiwyd a soia heb ei ardystio'n gorfforol ar unrhyw bwynt yn y gadwyn.	Yn rhatach na Gwahanu. Mae cynnwys soia heb ei ardystio'n creu mwy o risg datgoedwigo a thrawsnewid cynefin.
Credydau RTRS	Mae cwmnïau'n prynu credydau (neu dystysgrifau) o gynhyrchwyr ardystiedig er mwyn cefnogi cynhyrchu cynaliadwy, ond gallent barhau i ddefnyddio soia heb ei ardystio yn eu cynhyrchion. Mae'r system gredydau ar wahân i'r gadwyn gyflenwi gorfforol.	Yn cefnogi cynhyrchu cynaliadwy fel cam cyntaf. Yr opsiwn rhataf, ond hefyd y gwannaf. Nid yw'n cefnogi proses olrhain. Model "busnes fel arfer" – nid yw'n cyfrannu at newid faint o soia â risg datgoedwigo a ddefnyddir gan gwmnïau.



OLEW PALMWYDD

- Mae Cymru'n gyfrifol am fewnforio 51,000 o dunelli o olew palmwydd, olew cnewyll palmwydd a blawd cnewyll palmwydd bob blwyddyn.
- Blawd yw'r rhan fwyaf o'r mewnforion (38 y cant) a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid, ac olew palmwydd (36 y cant) a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer coginio, pobi, prydau parod, siocled, melysfwyd a chynhyrchion hylendid personol fel sebon.
- Nid yw meintiau'r mewnforion wedi newid ers 2011.

FFIGUR 4: AMCANESTYNIADAU O FEWNFORION OLEW PALMWYDD, CNEWYLL PALMWYDD A BLAWD CNEWYLL PALMWYDD CYMRU 2011-25




Cydnabyddiaeth hawlfraint © WWF-Pacific / Tom Vierus



- Dros y cyfnod cyfan, mae 81 y cant o'r ôl-troed tir hwn wedi'i leoli mewn gwledydd sydd â risg uchel neu uchel iawn o ddatgoedwigo a/neu broblemau cymdeithasol, gan gynnwys Indonesia, Malaysia, Papua Guinea Newydd ac Ynysoedd Solomon. **O'r herwydd, olew palmwydd yw'r nwydd â'r risg uchaf a fewnforir i Gymru. Prin y mae'r proffil cyrchu wedi newid dros amser, gyda chrynhoad y cyflenwad yn dod o wledydd risg uchel a risg uchel iawn.**
- Mae oddeutu 58 y cant o'r mewnforion olew palmwydd ac olew cnewyll palmwydd wedi'u hardystio gan y Ford Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy (RSPO) ac yn defnyddio cadwyn gyflenwi sy'n sicrhau bod y deunydd a fasnachwyd wedi'i ardystio (h.y. wedi'i ardystio ei fod ar wahân)[14]. Mae ardystiad RSPO yn rhoi rhywfaint o sicrwydd nad yw dulliau cynhyrchu'r olew palmwydd wedi cynnwys datgoedwigo, caethwasiaeth a llafur plant. Fodd bynnag, dim ond 22 y cant o'r holl fewnforion olew palmwydd yw'r rhain o ystyried olew palmwydd sy'n rhan o gynhyrchion eraill a blawd olew cnewyll palmwydd[15].
- Mae rhai cynhyrchion olew palmwydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd arfaethedig y DU ac yn rhan o Reoliad Datgoedwigo'r Undeb Ewropeaidd hefyd. Os daw'r ddeddfwriaeth hon i rym/ei gweithredu yn eu tro, mae'n debyg o leihau'n sylweddol effeithiau amgylcheddol mewnforion olew palmwydd y DU.

FFIGUR 5: ÔL-TROED TIR TRAMOR CYMRU AR GYFER OLEW PALMWYDD, OLEW CNEWYLL PALMWYDD A BLAWD CNEWYLL PALMWYDD






- 180,000 o dunelli o CO2e oedd cyfanswm cyfartalog yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwyd o ganlyniad i newid defnydd tir, megis datgoedwigo, er mwyn tyfu mewnforion olew palmwydd, olew cnewyll palmwydd a blawd cnewyll palmwydd Cymru bob blwyddyn. Mae hwn cyfwerth ag allyriadau blynyddol oddeutu 100,000 o geir yng Nghymru[16].
- Daw bron dau draean o'r allyriadau hyn (63 y cant) o ddatgoedwigo yn Indonesia.

CIG EIDION

- Roedd Cymru'n gyfrifol am fewnforio 10,700 o dunelli o gig eidion bob blwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2011-15. Mae'r mewnforion wedi gostwng yn gyson ers 2011 pan oeddent yn 13,400 o dunelli, o gymharu â 9,300 o dunelli yn 2025.

FFIGUR 6: AMCANESTYNIADAU O FEWNFORION CIG EIDION MAE'R GOSTYNGIAD MEWN MEWNFORION YN ARWYDDOCAOL YN YSTADEGOL



Cydnabyddiaeth hawlfraint © Jacqueline Lisboa / WWF-Brazil




AR GYFARTALEDD, MAE ANGEN 121,000 O HECTARAU O DIR I DDIWALLU GALW CYMRU AM FEWNFORION YN YSTOD Y CYFNOD, SY'N GYFWERTH AG ARDAL O DIR MAINT SIR WRECSAM AC YNYS MÔN GYDA'I GILYDD

Cydnabyddiaeth hawlfraint © Jacqueline Lisboa / WWF-Brazil

- Mae ychydig dros hanner y mewnforion (52 y cant) yn gig eidion ffres neu wedi'i oeri. Mae'r gweddill wedi'i rhewi neu mewn cynhyrchion cig wedi'u prosesu fel corn-bîff.
- Nid oes unrhyw gynlluniau gwirfoddol ar gyfer ardystio cig eidion sy'n gweithio ar raddfa, sy'n cyfyngu ar yr opsiynau i gwmnïau sy'n prynu cig eidion o wledydd risg uchel.
- Daw 14 y cant o'r mewnforion cig eidion o Frasil, lle mae risg datgoedwigo uchel a phroblemau difrifol o ran hawliau dynol. 26 y cant oedd y ffigur cyfatebol rhwng 2011-18, sy'n dangos bod mewnforion cig eidion yn lleihau ac yn dod yn gynyddol o wledydd â risg is yn yr UE.

FODD BYNNAG, MAE CYMRU'N PARHAU I FWYTA MAINT ANGHYMESUR O GORN-BÎFF (8 Y CANT O GYFANSWM Y DU YN 2025[17]) A DAW MWY NA THRAEAN O FEWNFORION CORN-BÎFF (37 Y CANT) O FRASIL, SY'N DANGOS BOD POCEDI PENODOL O RISG UCHEL YN BODOLI O HYD


FFIGUR 7: ÔL-TROED TIR TRAMOR CYMRU AR GYFER CIG EIDION



COCO

- Mae Cymru'n mewnforio 14,000 o dunelli o goco bob blwyddyn. Ni chafwyd unrhyw newid amlwg yn y meintiau a fewnforiwyd rhwng 2011-25.

FFIGUR 8: AMCANESTYNIADAU MEWNFORION COCO I GYMRU




Cydnabyddiaeth hawlfraint © camilodiazphotography / WWF Colombia / WWF-UK



AR GYFARTALEDD, MAE ANGEN 45,400 O HECTARAU O DIR I DDIWALLU GALW CYMRU AM GOCO BOB BLWYDDYN, SY'N GYFWERTH AG ARDAL O DIR MAINT SIR FFLINT

- Daw mewnforion coco Cymru o orllewin Affrica yn bennaf, gyda 45 y cant yn dod o Côte d'Ivoire.
- Mae o leiaf 54 y cant o'r arwynebedd tir mewn gwledydd â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol difrifol, yn arbennig Côte d'Ivoire a Nigeria. Yn drist, ceir adroddiadau rheolaidd am lafur plant a llafur dan orfod o'r ffermydd coco yn y gwledydd hyn. Gwaethygodd y proffil risg ers 2011, gyda chyfran y cyflenwad sy'n dod o Côte d'Ivoire yn cynyddu, a llai'n dod o Ghana, sy'n wlad â chyfradd risg canolig.
- Y prif gynlluniau ardystio trydydd parti yw Fairtrade, Rainforest Alliance, ac organig. Er nad yw data sy'n benodol i'r DU ar gael, o 2019 ymlaen, roedd 47.3 y cant o'r cynhyrchiant byd-eang wedi'i ardystio dan un o'r cynlluniau hyn[18].
- Mae rhai cynhyrchion coco wedi'u cynnwys dan y Rheoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd arfaethedig a hefyd yn rhan o Reoliad Datgoedwigo'r Undeb Ewropeaidd. Os daw'r deddfau hyn i rym/eu gweithredu yn eu tro, mae'n debyg o leihau'n sylweddol effeithiau amgylcheddol mewnforion coco y DU.
- 164,000 o dunelli o CO_2e yw cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir o ganlyniad i newid defnydd tir er mwyn cynhyrchu coco ar gyfer mewnforion Cymru bob blwyddyn. Mae hwn cyfwerth ag allyriadau blynyddol oddeutu 96,000 o geir petrol arferol yng Nghymru.


FFIGUR 9: ÔL-TROED TIR TRAMOR CYMRU AR GYFER COCO



COFFI

- Mae Cymru'n mewnforio 14,990 o dunelli o goffi bob blwyddyn. Ni chafwyd unrhyw newid amlwg yn y maint a fewnforiwyd yn ystod y cyfnod.

FFIGUR 10: AMCANESTYNIADAU MEWNFORION COFFI



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Yiu Yu Hoi/Moment RF/Getty Images


- **Mae o leiaf tri chwarter (76 y cant) o'r arwynebedd tir mewn gwledydd risg uchel neu uchel iawn** o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol difrifol, yn arbennig Brasil, Fietnam, Indonesia, Colombia, Honduras a Pheriw. Arhosodd y proffil risg yn gyson dros y cyfnod.
- Mae nifer o Systemau Cynaliadwyedd Gwirfoddol yn gweithredu yn y sector coffi, gan gynnwys Fairtrade, Rainforest Alliance, organig a llu o gynlluniau llai adnabyddus. Er nad yw data ar gyfer y DU ar gael, amcangyfrifir bod 55% o'r cyflenwad coffi byd-eang wedi'i ardystio yn 2022[19]. Mae'r ffigur hwn yn uchafswm damcaniaethol, gan nad yw'n eithrio coffi wedi'i ardystio gan fwy nag un cynllun[20].
- Mae rhai cynhyrchion coffi wedi'u cynnwys dan Reoliad Datgoedwigo'r Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, mae'n debyg o gael ei eithrio o Reoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd arfaethedig y DU, sy'n debyg o atal unrhyw leihad sylweddol yn effeithiau amgylcheddol mewnforion coffi y DU.
- 20,000 o dunelli o CO2e yw cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir o ganlyniad i newid defnydd tir er mwyn cynhyrchu coffi ar gyfer mewnforion Cymru bob blwyddyn. Mae hwn cyfwerth ag allyriadau blynyddol oddeutu 11,700 o geir arferol yng Nghymru.


Cydnabyddiaeth Hawlfraint © camilodiazphotography / WWF Colombia / WWF-UK



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © TEERAYUT CHAISARN/Moment RF/Getty Images

FFIGUR 11: ÔL-TROED TIR TRAMOR CYMRU AR GYFER COFFI



POBLOEDD BRODOROL: YR (AVÁ) GUARANI ÑANDEVA

Y Guarani Ñandeva yw un o dri phrif is-grŵp y bobl Guarani ym Mrasil, sy'n bartner i elusen Maint Cymru ers 2021. Mae ei phoblogaeth o filoedd wedi'i gwreiddio'n hanesyddol yn rhanbarth deheuol Fforest yr Iwerydd. Fel llawer o Bobloedd Brodorol eraill Lladin America, maent wedi dioddef yn hanesyddol o gael eu herlid, eu dadleoli, eu difrodi gan glefydau a fewnforiwyd, eu gorfodi i droi i Gristnogaeth a'u gorfodi i integreiddio i gymdeithas prif-ffrwd.

Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru

Mae eu trafferthion yn parhau hyd heddiw, gyda'u tiroedd cyndadol yn cael eu bygwth oherwydd ymestyn ffermio gwartheg a thyfu soia i fwydo galw gwancus y diwydiant da byw byd-eang. Er nad oes ffordd o wybod i sicrwydd bod soia a chig eidion o diroedd y Guarani'n dod i Gymru, llwyddasom i ddangos risg gwirioneddol bod hynny'n digwydd.

Mae'r Instituto Socioambiental ym Mrasil yn darparu mapiau o holl diroedd y Pobloedd Brodorol ym Mrasil[21]. Rydym wedi cynnwys yr holl Diriogaethau Brodorol sy'n gysylltiedig â'r Guarani Ñandeva os ydynt wedi'u diffinio'n swyddogol neu'n dal i fod yn rhan o'r broses gyfreithiol gymhleth i gael eu diffinio. Aethom ati i gymharu bwrdeistrefi'r Tiriogaethau Brodorol hynny â'r bwrdeistrefi sy'n allforio soia a chig eidion i'r DU yn uniongyrchol, gan ddefnyddio data TRASE[22].

Darganfuom fod 34 o fwrdeistrefi sy'n cynnwys tir Guarani Ñandeva yn cyflenwi soia a/neu gig eidion i'r DU yn uniongyrchol. Mae'n debyg bod cyfran o'r soia a chig eidion hyn yn dod i Gymru, gan nad oes gan Gymru ei chadwyni cyflenwi nwyddau pwrpasol ei hun. Yn hytrach, mae'n derbyn deunyddiau a fewnforir i'r DU gyfan. Mae'r cyfrannau'n gymharol fach sef 7,480 o dunelli o soia a 435 o dunelli o gig eidion, serch hynny, mae angen arwynebedd sylweddol o dir i'w cynhyrchu: cyfanswm o fwy na 7,000 o hectarau. Amcangyfrifir i'r mewnforion hyn achosi 18.5 o hectarau o ddatgoedwigo yn ystod 2022 yn unig.

Ceir dau gafeat pwysig yma. Yn gyntaf, nid yw cynhyrchiant mewn bwrdeistref sy'n cynnwys Tiriogaeth Frodorol yn golygu bod y cynnyrch wedi dod o'r Diriogaeth nac ei fod wedi effeithio arni. Fodd bynnag, mae'n golygu roedd risg bod hynny wedi digwydd, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw fecanwaith i gwmnïau o Gymru brofi nad yw eu mewnforion soia'n dod o fwrdeistrefi mewn Tiriogaethau Brodorol. Felly, mae'n bwysicach fyth bod mewnforion o Gymru'n cael eu cyfrif yn well yn rheoliad arfaethedig FRC y DU. Yn ail, dim ond cyfran fach (tua 20 y cant) o'r holl soia sy'n dod i Gymru neu'r DU o Frasil a fewnforir yn uniongyrchol, gan fod y rhan fwyaf ohono'n cael ei fewnforio o wledydd trydydd parti fel yr Iseldiroedd, yr Almaen neu Iwerddon. Mae hynny'n golygu bod y meintiau sy'n dod o fwrdeistrefi sy'n cynnwys Tiriogaethau Brodorol yn debyg o fod llawer yn uwch nag y gallwn eu hadnabod o'r data sydd ar gael, sydd hefyd yn cynyddu'r risg bod soia o'r Tiriogaethau Brodorol yn dod i Gymru.

STRAEON O RENG-FLAEN DATGOEDWIGO: Y BOBL GUARANI, BRASIL

Y Guarani yw un o'r Pobloedd Brodorol mwyaf niferus ym Mrasil, ac mae ei thiriogaeth gyndadol yn Fforest yr Iwerydd, Brasil[23]. Mae Fforest yr Iwerydd yn cynnwys oddeutu 5 y cant o fioamrywiaeth y byd mewn rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid ac fe'i hystyrir yn rhanbarth â blaenoriaeth ar gyfer cadwraeth amgylcheddol - un o'r pum prif fan yn fyd-eang[24]. Afonydd a ffynonellau'r goedwig sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o gyflenwad dŵr croyw Brasil, gan wasanaethu 130 miliwn o bobl[25]. Fodd bynnag, mae Fforest yr Iwerydd a'r Bobl Frodorol sy'n byw yn y bïom hwn dan fygythiad oherwydd amaethfusnes yn y rhanbarth, yn enwedig ungnwd soia. 1.2 miliwn km2 oedd arwynebedd y goedwig yn hanesyddol, sef chwarter maint yr Amazon. Heddiw, o ganlyniad i sawl math o drefedigaethu, canrifoedd o ddatgoedwigo, newid defnydd tir ac ymestyn trefol, llai na 10 y cant o'r cynefin gwerthfawr hwn sydd ar ôl mewn ardaloedd a warchodir a chlytwaith o goedwig ddarniog[26], sydd wedi'u hamgylchynu'n aml gan blanhigfeydd ungnwd.


Cydnabyddiaeth Hawlfraint © CGY

Yn niwylliant y Guarani, mae bywydau pobl wedi'u plethu ac yn gysylltiedig â bywydau'r holl fodau eraill yn y goedwig. Nid ydynt yn gweld eu hunain ar wahân i natur. Maent yn bwydo, amddiffyn a pharchu'r ddaear, planhigion, anifeiliaid a phryfed, gan ystyried eu bywydau'n gyfartal, a byth yn ceisio trechu natur na manteisio arno.

"ER MWYN CYNNAL EIN NHANDEREKO, EIN FFORDD O FYW, RHAID CADW'R COEDWIGOEDD A'U HOLL FODAU YN FYW HEFYD."
ARWEINYDD BRODOROL O'R COMISSÃO GUARANI YVYRUPA

Fodd bynnag, mae grymoedd economaidd pwerus yn dinistrio ac yn manteisio ar y goedwig i gynhyrchu soia. Mae'r Guarani'n brwydro i amddiffyn eu tiroedd, ac o'r herwydd, maent yn dioddef gwahaniaethu, camdriniaeth, bygythiadau a bygylu bob dydd[27].

Mae nifer wedi cael eu llofruddio ac os yw eu pentrefi'n agos i blanhigfeydd soia, cânt eu chwistrellu'n rheolaidd â phlaladdwyr, gan effeithio'n ddifrifol ar iechyd eu plant, planhigion ac anifeiliaid. Cafodd tirnodau ysbrydol eu gorlifo a dinistriwyd pentrefi i dyfu cnydau fel ffa soia, sy'n cael eu hallforio a'u defnyddio fel bwyd anifeiliaid.


Cydnabyddiaeth Hawlfraint © CGY

"YM MRASIL, MAE'R POBLOEDD BRODOROL, POBL WREIDDIOL Y TIR, WEDI DIODDEF TRAIS ERIOED. COLLASANT EU TIROEDD A CHAWSANT EU LLOFRUDDIO OHERWYDD GWLADYCHU, AC YMOSODIR AR EIN HAWLIAU HYD HEDDIW. CAIFF EIN TIROEDD A'N COEDWIGOEDD EU DINISTRIO O HYD. RYDYM HYD YN OED WEDI COLLI EIN BYWYDAU OHERWYDD BUDDIANNAU ECONOMAIDD PWERUS IAWN."
ARWEINYDD BRODOROL, O'R COMISSÃO GUARANI YVYRUPA

Mae angen ar bobl Guarani gefnogaeth fyd-eang gan lywodraethau, cyrff anllywodraethol, busnesau a chymdeithas sifil i amddiffyn eu diwylliant, bodolaeth, ac felly eu coedwigoedd. Mae'r bobl Guarani'n galw ar bobl yn fyd-eang i gefnogi eu brwydr i amddiffyn coedwigoedd ac adfer eu tiroedd cyndadol - i wrando ar leisiau'r rhai â gwybodaeth unigryw am sut i ofalu am goedwigoedd. I fusnesau, mae hynny'n golygu parchu fframweithiau hawliau dynol a gydnabyddir yn rhyngwladol, fel Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Frodorol. Mae'n golygu sicrhau nad yw'r cynhyrchion a nwyddau a brynasant, fel soia, yn tresmasu ar yr hawliau hyn. Er enghraifft, ei wneud yn ofynnol i'w cyflenwyr allu olrhain yn llawn eu cadwyni cyflenwi o ran eu risgiau i goedwigoedd, neu'r gallu i ddogfennu Caniatâd Rhydd, Cyn Caniatâd a Chydsyniad ar sail Gwybodaeth ar gyfer nwyddau a dyfir ar diroedd brodorol. Mae'n golygu eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gweithredoedd a'u harferion caffael i leihau datgoedwigo trofannol a thrawsnewid defnydd tir er mwyn amddiffyn cymunedau brodorol a mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Mae'r rhain yn ddulliau go iawn o gryfhau ein hamddiffyniad o'r lle y mae pawb ohonom yn byw – y coedwigoedd, yr afonydd. Nid yw'r frwydr dros y bobl Guarani yn unig, ond dros bawb. Mae'n frwydr dros fywyd da, yn frwydr dros fywyd y blaned.

I gael mwy o wybodaeth am effaith soia ar bobl Avá Guarani a sut mae'r soia hwnnw'n gallu arwain at niwed amgylcheddol yng Nghymru, darllenwch "Food, Forest and Injustice: The Hidden Link Between Wales and Brazil"

CYNNYDD CYMRU O RAN DOD YN GENEDL DIM DATGOEDWIGO

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd o ran symud prosesau caffael dim datgoedwigo a chadwyni cyflenwi cynaliadwy ymlaen, gydag arweinyddiaeth yn dod i'r amlwg ar draws llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a busnesau.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru


Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori meini prawf datgoedwigo a thrawsnewid tir yn ei offeryn Asesu Risg Cynaliadwyedd Caffael ac wedi cryfhau gofynion o ran cyfrifoldeb byd-eang trwy gynnwys meini prawf dim datgoedwigo yng Nghanllawiau Statudol [28] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru). Ar lefel lleol, mae cynghorau fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir Fynwy wedi cymryd camau gweithredu sylweddol trwy ymwreiddio safonau dim datgoedwigo gorfodol mewn fframweithiau caffael bwyd a ffynonellau prydau ysgol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys lleihau bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, hyrwyddo cynnyrch â safonau lles uwch a chynnyrch organig, gwneud olew palmwydd a bwyd môr cynaliadwy ardystiedig yn ofynnol, cynyddu'r opsiynau sy'n seiliedig ar blanhigion, a gwella tryloywder mewn cadwyni cyflenwi. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi argymell i sector cyhoeddus Cymru fod yn gwbl dim datgoedwigo erbyn 2028, gan helpu i sefydlu cyfeiriad cenedlaethol cliriach[29].

Mae ysgolion wedi bod wrth galon y broses o yrru newid ymarferol. Daeth mwy na 30 o ysgolion yn Ysgolion Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo, lle mae disgyblion wedi archwilio bwydlenni ysgol, edrych ar effaith amgylcheddol y cynhwysion, a datblygu ryseitiau mwy cynaliadwy trwy ddefnyddio dewisiadau amgen sy'n ystyrlon o goedwigoedd. Mae'r mentrau hyn wedi helpu i roi pobl ifanc wrth galon y penderfyniadau tra'n dangos sut gall newid ymddygiad ac addysg gefnogi'r gwaith o drawsnewid y system ehangach. Yn ogystal, mae busnesau o Gymru sy'n cyflenwi contractau cyhoeddus yn archwilio nwyddau risg uchel ac yn archwilio arferion cyrchu mwy cynaliadwy. Mae Cymru hefyd wedi parhau i ddangos arweinyddiaeth ryngwladol ar gyfiawnder hinsawdd trwy bartneriaethau sy'n cefnogi tyfu coed yn Uganda a phrosiectau a arweinir gan bobl frodorol i amddiffyn y goedwig yn Amazon Periw.

Er y cynnydd hwn, ceir heriau pwysig a bylchau o hyd. Nid yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy diweddaraf yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r defnydd o fwyd soia a fewnforiwyd a dewisiadau amgen ar gyfer tyfu bwyd yn lleol, sy'n golygu nad oes unrhyw ofyniad ar ffermwyr, neu gymhelliad iddynt leihau eu dibyniaeth ar nwyddau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo ar hyn o bryd. Er bod mentrau lleol wedi dangos y gellid lleihau'r defnydd o soia, ni chafodd ei ymwreiddio yn y polisi amaethyddol cenedlaethol. Ceir pryderon sylweddol o hyd ynghylch cyllid a buddsoddi hefyd, gyda gwaith ymchwil yn dangos bod cyfran fawr o fuddsoddiadau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn agored i ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo – mae risg uchel bod bron £1 ym mhob £10 o'r buddsoddiadau a wneir gan yr wyth cronfa pensiwn yn ariannu datgoedwigo[30]. Er bod prosesau monitro ac adrodd yn gwella, ac mae gwaith ymgysylltu â'r cronfeydd pensiwn ynghylch materion cynaliadwyedd yn digwydd, dim ond camau gweithredu cyfyngedig a gafwyd hyd yma i symud buddsoddiadau i ffwrdd o'r sectorau â risg uchel o ddatgoedwigo.

Yn gyffredinol, er bod Cymru wedi sefydlu seiliau cadarn a momentwm cynyddol, bydd angen targedau cenedlaethol cryfach, safonau gorfodol, mwy o weithredu ar amaethyddiaeth, bwyd a chyllid cynaliadwy, a chydweithredu parhaus ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, ynghyd â rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i weithredu rheoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd y DU, i gyflawni dull sy'n gwbl rydd o ddatgoedwigo.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru


Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru

ARGYMHELLION

Er y cynnydd a nodwyd uchod, rydym wedi dangos bod risgiau sylweddol wedi'u hymwreiddio o hyd yng nghadwyni cyflenwi Cymru y mae angen mynd i'r afael â hwy. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, busnesau, sefydliadau ariannol a defnyddwyr i gymryd camau gweithredu beiddgar i symud yn gyflymach at ddefnyddio cadwyni cyflenwi gwyrddach, mwy cynaliadwy a chydnerth. Ceir cyfleoedd sylweddol i dorri'r cysylltiad rhwng mewnforion nwyddau Cymru a datgoedwigo a cham-fanteisio cymdeithasol.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © WWF-US/Alejandro Prieto

LLYWODRAETH CYMRU

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys i wneud popeth o fewn ei gallu a phŵer penderfynu i helpu i ddileu datgoedwigo, colli cynefinoedd a'r effeithiau cymdeithasol cysylltiedig o'i chadwyni cyflenwi trwy gymryd y camau gweithredu canlynol:

1. PROSESAU CAFFAEL DIM DATGOEDWIGO A CHADWYNI CYFLENWI MOESEGOL

Sicrhau y glynir yn gryf at Ganllawiau Statudol y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) sy'n cynnwys meini prawf dim datgoedwigo. Mae hwn yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad 2025 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi "Rhaid i'r sector cyhoeddus ddod yn rhydd o ddatgoedwigo erbyn 2028, gan sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo byd-eang, colli cynefinoedd neu dorri hawliau dynol, gan gynnwys llafur plant a cham-drin hawliau Pobl Gynhenid."

Cynyddu faint o fwyd a deunyddiau dim datgoedwigo a gaiff eu caffael gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ardystiadau fel Fairtrade, olew palmwydd ag ardystiad RSPO (h.y. wedi'i wahanu neu'r adnabyddiaeth wedi'i chadw), Organig a Pasture for Life. Dod â'r arfer o gaffael cig eidion o ranbarthau â risg uchel o ddatgoedwigo, fel De America, i ben.

Integreiddio allyriadau datgoedwigo a threuliant a fewnforiwyd i ôl-troed carbon Cymru a'i thargedau sero net.

2. DATBLYGU CYNLLUN CYDNERTHEDD BWYD CENEDLAETHOL AG EFFAITH FYD-EANG

Creu strategaeth fwyd drawsadrannol sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi cynaliadwy, lleol "o'r fferm i'r fforc", a mewnforion o ffynonellau moesegol. Dylai'r strategaeth hon bennu'r targedau ar gyfer cynyddu cynhyrchion lleol, atgynhyrchiol a/neu organig (gan gynnwys defnyddio dulliau organig i ffermio o leiaf 20 y cant o dir fferm Cymru erbyn 2030), hyrwyddo llai o gig a chynhyrchion llaeth o ansawdd gwell, cynyddu protein yn seiliedig ar blanhigion, cyfyngu ar fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, a rhoi blaenoriaeth i gynhyrchion Fairtrade. Tyfu'r gefnogaeth i brosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion er mwyn cynyddu'r defnydd a wneir o ffrwythau a llysiau organig a gynhyrchir yng Nghymru gan wasanaethau arlwyo'r sector cyhoeddus - i gyrraedd 75 y cant o'r lefel bwyta ffrwythau a llysiau a argymhellir gan y Canllaw Bwyta'n Dda erbyn 2030.

3. DIWYGIO FFERMIO CYNALIADWY

Alinio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd â nodau dim datgoedwigo: cefnogi ffermwyr i symud i ffwrdd o ddefnyddio bwydydd sy'n seiliedig ar soia a phalmwydd a fewnforiwyd sy'n gyrru datgoedwigo a cholli cynefinoedd tramor, a hyrwyddo dewisiadau lleol amgen fel codlys a dyfir yn y DU a systemau sy'n pesgi anifeiliaid ar borfa.

Hyrwyddo arferion amaethecolegol fel amaeth-goedwigaeth, ffermio atgynhyrchiol ac organig, a systemau sy'n ystyrlon o'r hinsawdd sy'n gweithredu mewn cytgord â'r tir ac yn lleihau'r angen am fewnforio bwyd anifeiliaid.

Gwell goruchwyliaeth o weithgareddau mewn dalgylchoedd afonydd trwy gynnwys yr holl ddulliau ffermio da byw mewnbwn uchel-allbwn uchel yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ynghyd â gostwng y trothwy lle caiff unedau dofednod eu cynnwys yn y Rheoliadau, a chyflwyno gofynion effeithiol, gan gynnwys yn y system gynllunio, i atal effaith gronnol nifer fawr o unedau da byw. Dylid cynnig cymorth i ffermwyr newid i ddefnyddio modelau cynhyrchu â llai o effaith. Yn y pendraw, bydd hyn yn lleihau'r defnydd o fwyd anifeiliaid soia a ddefnyddir mewn unedau dofednod dwys ac yn lleihau ôl-troed datgoedwigo byd-eang Cymru.

4. TRAWSNEWID BWYD MEWN YSGOLION A LLEIHAU BWYDYDD A PHROSESWYD YN HELAETH

Diweddaru Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2009 i gynnwys darpariaethau ar gyfer dod o hyd i gynhwysion yn gyfrifol, a gosod cyfyngiadau ar fwydydd a phroseswyd yn helaeth.

Pennu targedau i leihau bwydydd a phroseswyd yn helaeth mewn dietau plant a hybu cynhwysion ffres, lleol a thymhorol sy'n seiliedig ar blanhigion.

Cynnwys myfyrwyr yn y broses o ddylunio bwydlenni ysgol a chynnwys y gymuned ysgol gyfan, fel athrawon, rhieni a gofalwyr, er mwyn cynyddu'r defnydd o brydau ysgol am ddim, cefnogi newid ymddygiad ehangach a helpu i ddatblygu arferion bwyta iach.

5. YMWREIDDIO ADDYSG DINASYDDIAETH FYD-EANG, HINSAWDD A BWYD

Ariannu rhaglenni addysg hinsawdd sy'n helpu i bobl ifanc ddysgu am bwysigrwydd coedwigoedd trofannol a sut orau i'w hamddiffyn. Er enghraifft, trwy gefnogi rhaglen Ysgolion Hyrwyddo Dim Datgoedwigo sy'n dysgu myfyrwyr am effeithiau a datrysiadau ar gyfer nwyddau sy'n risg i goedwigoedd a sut allwn ni, yng Nghymru a thu hwnt, leihau ein heffaith ar goedwigoedd, pobl a natur drofannol.

Ymwreiddio addysg bwyd ymarferol ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cynhyrchu bwyd "o'r fferm i'r fforc", systemau bwyd byd-eang, tyfu, paratoi a choginio bwyd, er mwyn cryfhau llythrennedd bwyd.

6. DANGOS UNDOD BYD-EANG A CHEFNOGI POBLOEDD BRODOROL

Cefnogi prosiectau a mentrau rhyngwladol wedi'u hanelu at gadw ac adfer coedwigoedd yn y prif wledydd sy'n cynhyrchu'r nwyddau y mae Cymru'n dibynnu arnynt.

Parhau â gwaith hollbwysig rhaglen Cymru ac Affrica er mwyn cefnogi cymunedau lleol ar reng-flaen yr argyfwng hinsawdd a natur, cefnogi cydnerthedd a gwaith addasu hinsawdd trwy adfer coedwigoedd a thyfu coed.

Cefnogi Pobloedd Brodorol trwy ariannu a chydnabod eu hawliau er mwyn diogelu coedwigoedd trofannol a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi mwy o arian i'w gwaith, cydnabod eu hawliau, a chyfleoedd i ddysgu o'u doethineb a gwybodaeth sydd wedi'u gwneud yn warchodwyr gorau coedwigoedd y byd. Mae hwn yn adeiladu ar Addewid i'r Dyfodol y Cenhedloedd Unedig a fabwysiadwyd yn Efrog Newydd yn 2024.

7. CYFRAITH Y DU - EIRIOLI DROS DDIWYDRWYDD DYLADWY GORFODOL

Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau cyfreithiol a sicrhawyd dan Ddeddf Amgylcheddol 2021 i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a fydd yn caniatáu i reoliad Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd y DU ddod i rym er mwyn sefydlu system ddiwydrwydd dyladwy a dileu datgoedwigo o gadwyni cyflenwi y DU, a Chymru o'r herwydd.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Aled Llywelyn / WWF Cymru

BUSNESAU A SEFYDLIADAU O GYMRU

Rydym yn galw ar fusnesau a sefydliadau i ddatblygu cynlluniau gweithredu a pholisïau cryf, uchelgeisiol ac amser-gyfyngedig er mwyn ymrwymo i gadwyni cyflenwi dim datgoedwigo, trawsnewid cynefinoedd a chamddefnyddio cymdeithasol.

Dewch yn Hyrwyddwr Busnes Dim Datgoedwigo a chymryd camau ymarferol i leihau eich risg datgoedwigo e.e. trwy ddefnyddio adnoddau fel pecyn cymorth Busnes Dim Datgoedwigo Maint Cymru.

SEFYDLIADAU ARIANNOL


Rydym yn galw ar sefydliadau ariannol Cymru, gan gynnwys cronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru, i nodi sut y maent yn agored i risgiau ac effeithiau datgoedwigo oherwydd eu buddsoddiadau.

Llunio polisi cyhoeddus cryf, gan ymrwymo i ddileu datgoedwigo, trawsnewid tir, a'r camddefnydd cysylltiedig o hawliau dynol o fewn amserlen uchelgeisiol, yn ddelfrydol heb fod yn hwyrach na 2030.

Rhaid i gronfeydd pensiwn ymgysylltu â'u rheolwyr asedau a'r cleientiaid/daliadau a fuddsoddant ynddynt i ysgogi cynnydd, trwy bennu disgwyliadau clir o ran cydymffurfiaeth a rhoi prosesau ar waith i ailgyfeirio cyllid os na chaiff cynnydd digonol ei wneud o fewn amserlen benodol.

Gall cronfeydd pensiwn hefyd dangos yn dryloyw eu risgiau o ran datgoedwigo trwy eu gweithgareddau buddsoddi, yn ogystal â'u cynnydd tuag at ddileu'r risgiau hynny. Gall y gwaith hwn gynnwys adrodd i aelodau'r gronfa pensiwn ar faint yw'r risg o ran datgoedwigo yn eu pensiynau, cynllun gweithredu, amserlenni a'r cynnydd a wnaed. Dylai hyn fod yn rhan o'u dyletswyddau adrodd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Os na chaiff cynnydd ei wneud, ac mae angen ailgyfeirio cyllid, dylai'r cyllid hwn a ailgyfeiriwyd alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sef dim datgoedwigo, trawsnewid ecosystemau naturiol, a'r camddefnydd cysylltiedig o hawliau dynol.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © WWF

DINASYDDION CYMRU

BETH ALL DINASYDDION EI WNEUD?

Bwyta llai o gig, cynhyrchion llaeth ac wyau o ansawdd gwell e.e. cynhyrchion dulliau ffermio sy'n ystyrlon o natur, fel systemau 100% atgynhyrchiol, organig neu fwydo ar dir pori.

Bwyta mwy o brotein planhigion, fel ffa, codlys a phys, gan ategu diet â llai o gynhyrchion anifeiliaid trwy fwyta mwy o blanhigion llawn protein.

Bwyta llai o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth. Yn aml bydd bwydydd tebyg yn cynnwys olew palmwydd a/neu gynhyrchion olew palmwydd sy'n risg i goedwigoedd, fel cyffeithyddion ac emylsyddion. Mae lleihau eich cymeriant o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth yn well i'ch stumog ac i'r blaned.

Os yw'n anodd osgoi olew palmwydd e.e. mewn cynhyrchion fel siampŵ, sebon, bara a margarin, edrychwch am gynhyrchion sy'n cynnwys dim ond olew palmwydd a ardystiwyd yn llawn gan RSPO (h.y. o gadwyni cyflenwi Adnabyddiaeth a Gadwyd neu Wedi'u Gwahanu, nid cydnabyddiaeth Cydbwysedd Màs neu RSPO). Ystyr ardystiad RSPO yw bod modd olrhain yr olew palmwydd yn ôl i'r felin wreiddiol, a chafodd yr olew ei gynhyrchu yn unol â safonau tyfu RSPO.

Prynu cynhyrchion pren, papur a mwydion a ardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd neu a ailgylchwyd e.e. dodrefn, papur a dillad wedi'u gwneud o fiscos a reion (wedi'i wneud o fwydion coed).

Wrth brynu bwyd môr, edrychwch am gynhyrchion a ardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Dyframaethu. Mae ardystiad gan y Cyngor yn gofyn i ffermydd ddefnyddio bwyd o felinau bwyd a ardystiwyd gan y Cyngor sydd ag amodau llym o ran tarddiad bwyd sy'n seiliedig ar soia, gan gynnwys rhwymedigaethau i ddileu risgiau datgoedwigo a thrawsnewid tir o'u cadwyni cyflenwi.

Annog eich ysgol neu gyngor i fod yn Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo.

Ysgrifennwch at eich Aelodau lleol o'r Senedd a gofyn iddynt gefnogi ein galwadau i ddileu datgoedwigo o gadwyni cyflenwi Cymru a'r nwyddau a fewnforiwyd ganddi.


Mynnwch fwy o dryloywder a gweithredu gan eich archfarchnad a'ch hoff frandiau er mwyn sicrhau nad oes cysylltiad rhwng y cynhyrchion a brynwch a datgoedwigo, a/neu broblemau cymdeithasol fel llafur plant a llafur dan orfod, a chamddefnyddio hawliau Pobloedd Brodorol.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Maint Cymru

DULLIAU

Defnyddiwyd yr un dulliau yn yr adroddiad hwn ag y defnyddiwyd yn fersiwn cyntaf yr adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang. Defnyddiwyd yr un dulliau cyffredinol ar gyfer astudiaethau tebyg yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, Denmarc, y Swistir a Japan, ynghyd ag adroddiadau DU-gyfan. Mae'r union ddull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r mewnforion a'r tir sydd ei angen i'w cynhyrchu'n amrywio i raddau rhwng y nwyddau, gan ddibynnu ar y broses gynhyrchu, y defnydd a'r data sydd ar gael. Mae'r prif gamau a gymerwyd wedi'u nodi isod.



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Moisés Muálem / WWF-Brazil

Gan nad oes data mewnforio ac allforio sy'n benodol i Gymru ar gael, mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiadau Risky Business[31] a Riskier Business[32] y DU, ac adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang[33], Mae'n dyrannu meintiau nwyddau ac olion traed tir i Gymru yn unol â'r ffordd mae defnydd, poblogaethau da byw, a Chynnyrch Domestig Gros Cymru yn amrywio o weddill y DU. O'r herwydd, mae'r canlyniadau'n benodol i Gymru.

CAM 1

Mesur mewnforion pob nwydd i'r DU, gan ddefnyddio cronfa ddata COMTRADE y Cenhedloedd Unedig. Mae hon yn cynnwys mewnforion lle mae'r nwydd yn gynhwysyn (fel palmwydd mewn cynhyrchion sebon) ac wedi'i ymwreiddio (fel soia mewn cig cyw iâr).

CAM 2

Amcangyfrif tarddiad mewnforion y DU drwy fynd i lawr y gadwyn gyflenwi a dadansoddi data masnach y gwledydd sy'n ail-allforio nwydd i'r DU. Er enghraifft, lle mae'r DU yn mewnforio nwydd o wlad nad yw'n ei gynhyrchu (fel palmwydd o'r Iseldiroedd), edrych ar fewnforion yr Iseldiroedd o balmwydd i sefydlu gwir darddiad yr olew palmwydd a fewnforiwyd i'r DU o'r Iseldiroedd.

CAM 3

Amcangyfrif faint o dir sydd ei angen i gyflenwi'r nwyddau a fewnforir i'r DU. Ar gyfer nwyddau amaethyddol, mae hwn yn cynnwys dod o hyd i ffynhonnell data pwysau'r cnwd ar gyfer bob blwyddyn, gwlad a nwydd a fewnforir i Gymru, a phennu ôl-troed tir yn unol â hynny.

CAM 4

Cyfrifo'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir wrth newid defnydd tir ar gyfer cynhyrchu nwyddau. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r Offeryn Asesu Newid Defnydd Tir Uniongyrchol a ddatblygwyd gan gwmni Blonk Consultants i amcangyfrif y ffactor allyriadau CO2e fesul hectar penodol ar gyfer pob nwydd.

CAM 5

Pennu cyfran Cymru o fewnforion y DU drwy gymharu sut mae'r galw am nwyddau a fewnforir i Gymru'n wahanol i weddill y DU. Gwneir hyn drwy ddadansoddi data defnydd Cymru a data'r DU (fel data Arolwg Bwyd y Teulu DEFRA) a niferoedd da byw (gan fod rhai o'r nwyddau a fewnforiwyd, fel blawd ffa soia a blawd cnewyll palmwydd, yn cael eu defnyddio fel bwyd da byw). Yn dibynnu ar y nwydd a'r flwyddyn, neilltuwyd 4-6 y cant o fewnforion y DU i Gymru. Coffi yw'r nwydd â'r dyraniad uchaf (6.4 y cant, oherwydd y defnydd uchel ohono a nodwyd yn Arolwg Bwyd y Teulu) a soia (5.4 y cant, a yrrir yn bennaf gan sector mawr da byw yng Nghymru).

CAM 6

Pennu cyfradd risg datgoedwigo a/neu broblemau cymdeithasol ar gyfer pob gwlad y mae Cymru'n mewnforio nwyddau ohoni. Mae cyfradd risg y wlad yn sgôr wedi'i gyfuno o sgôr y wlad yn ôl pedwar dangosydd:

1. Arwynebedd y goedwig a gollwyd (o data Global Forest Watch)
2. Cyfradd ddatgoedwigo (o Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig)
3. Hawliau llafur (o ITUC)
4. Rheol gyfreithiol (o Fanc y Byd).

Y sgôr isaf yw 4 (isel iawn) a'r sgôr uchaf yw 12 (risg uchel iawn).

Nodyn ar gymharu'r adroddiad hwn ag adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang 2021. Ceir amrywiadau bach yn y meintiau o nwyddau a fewnforiwyd yn y ddau adroddiad am y blynyddoedd sy'n gorgyffwrdd (2011-18), fel arfer oddeutu ±3 y cant. O gofio bod yr un cynhyrchion wedi cael eu gwerthuso ac y defnyddiwyd yr un ffactorau trosi'n union i amcangyfrif cyfran y nwydd a ymwreiddiwyd mewn nwyddau gwneud neu mewn cynhyrchion da byw, mae hwn yn dangos bod yr ystadegau masnach swyddogol wedi cael eu diweddaru. Ceir amrywiadau mwy o faint yn yr olion traed tir a phroffiliau risg yn y ddau adroddiad oherwydd newid i'r patrymau tarddu.

ÔL-NODIADAU

1 Coedwig gynradd yw coedwig na chafodd ei thorri'n foncyffion, a ddatblygodd oherwydd tarfu naturiol a dan amodau naturiol, gydag uniondeb ecolegol a strwythurol uchel.

2 Goldman, E., Sims, M., Carter, S. & Popatov,P. (April 29 2026). Tropical Rainforest Loss Slowed in 2025, but Fire is a Growing Threat to Forests Worldwide. World Resources Institute. https://gfr.wri.org/latest-analysis-deforestation-trends

3 WWF (2021). Farming with Biodiversity. Towards nature-positive production at scale. WWF International, Gland, Swistir.

4 Llywodraeth ei Fawrhydi (2026).Global biodiversity loss, ecosystem collapse and national security. A national security assessment. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/696e0eae719d837d69afc7de/National_security_assessment_-_global_biodiversity_loss__ecosystem_collapse_and_national_security.pdf

5 https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

6 WWF Cymru, RSPB Cymru a Maint Cymru (2021). Cymru a Chyfrifoldeb Byd-Eang https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf

7 Messenger, S. (08 Tachwedd 2021). Climate change: Wales imports 'cause deforestation'. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-59199514

8 https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/ceir-gwartheg-a-glo-allyriadau-cymru-rhwng-1990-a-2023/

9 Nid yw'r data a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cynnwys cig eidion. Gweler yr adran Dulliau am fwy o fanylion.

10 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU (2025). Poblogaethau da byw yn y Deyrnas Unedig ar 1 Mehefin.

11 Efeca (2024). UK Roundtable on Sustainable Soya: Annual Progress Report 2023. https://www.efeca.com/wp-content/uploads/2023/12/UK-Soya-Annual-Progress-Report-2023-.pdf

12 Y cyfartaledd diwygiedig o'r cyfnod gwreiddiol yn yr adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang I (2011-18) yw 182,000 tunnell y flwyddyn. Y cyfartaledd o 2019-25 yw 191,000 tunnell y flwyddyn. Felly, y cyfartaledd ar gyfer y cyfnod cyfan (2011-2025) yw 186,000 tunnell. Mae'r gyfradd cynnydd mewn soia bron i 2,500 tunnell y flwyddyn ar gyfer y cyfnod cyfan. Mae amrywiadau bach, oddeutu ±3 y cant, yn y cyfeintiau a adroddwyd o nwyddau a fewnforiwyd rhwng y ddau adroddiad (2021 a 2026) ar gyfer y blynyddoedd sy'n gyffredin (2011-18). O ystyried mai'r un cynhyrchion sydd wedi'u gwerthuso a'r un ffactorau trosi'n union a ddefnyddiwyd i amcangyfrif cyfran y nwyddau wedi'u hymgorffori neu o fewn cynhyrchion da byw, mae hyn yn dangos bod yr ystadegau masnach swyddogol wedi'u diwed-daru.

13 https://responsiblesoy.org/material-rtrs?lang=en

14 Efeca (2022). Annual Progress Report UK Roundtable on Sourcing Sustainable Palm Oil. https://www.efeca.com/wp-content/uploads/2022/11/UK-RTSSPO-2022-Annual-Progress-Report-FINAL.pdf . Gweler yr adran flaenorol am ddisgrifiad o'r modelau gwahanol o gadwyni cyflenwi a ddefnyddir gan y systemau ardystio.

15 Mae 'wedi ymwreiddio'n' cyfeirio at gynhwysion sy'n bresennol mewn cynhyrchion gorffenedig a fewnforiwyd, yn hytrach na fel cynhwysion crai.

16 Mae car petrol arferol yn y DU a gofrestrwyd yn 2024 yn allyrru 1.397 gram o CO2e fesul cilometr (Llywodraeth y DU VEH0156) ac yn teithio 7,585 o filltiroedd ar gyfartaledd (https://www.racfoundation.org/media-centre/at-least-one-in-twenty-car-miles-driven-is-now-zero-emission), sy'n rhoi 1.71 o dunelli o allyriadau'r flwyddyn. Dylid nodi bod y gymhariaeth hon yn geidwadol, oherwydd bod allyriadau uwch gan geir hŷn fel arfer.

17 Wedi'i amcangyfrif o ddata Arolwg Bwyd y Teulu DEFRA

18 Bermudez, S., Voora, V. Larrea, C. & Luna, E. (2022). Global Market Report: Cocoa prices and sustainability. Sustainable Commodities Marketplace Series. IISD.

19 https://coffeebarometer.org/documents_resources/coffee_barometer_2023.pdf

20 Sjoerd Panhuysen & Frederik de Vries (2023). Coffee Barometer 2023. https://coffeebarometer.org/documents_resources/coffee_barometer_2023.pdf. Mae'n anodd dehongli'r ffigur a nodwyd gan ei fod yn fwyafswm damcaniaethol, oherwydd nid yw'n eithrio coffi a ardystiwyd gan fwy nag un cynllun.

21 https://ti.socioambiental.org/#pesquisa

22 https://trase.earth/ Noder 2022 yw'r flwyddyn fwyaf diweddar y mae data ar gyfer soia a chig eidion o Frasil ar gael.

23 https://super.abril.com.br/mundo-estranho/quais-sao-os-povos-indigenas-mais-numerosos-do-brasil/

24 https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2530064418301317

25 https://phys.org/news/2020-03-destruction-atlantic-forest-fragment-local.html

26 https://worldrainforests.com/mata-atlantica/

27 https://www.survivalinternational.org/news/11886

28 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/social-partnership-and-public-procurement-wales-act-statutory-guidance-socially-responsible-procurement-srp.pdf

29 https://futuregenerations.wales/discover/about-future-generations-commissioner/future-generations-report-2025/

30 https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf

31 Risky Business (WWF, 2017) https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2017-10/WWF%20and%20RSPB%20-%20Risky%20Business%20Report%20-%20October%202017.pdf

32 Riskier Business (WWF, 2020) https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2020-07/RiskierBusiness_July2020_V7_0.pdf

33 Cymru a Chyfrifoldeb Byd-Eang (WWF Cymru, RSPB Cymru a Maint Cymru 2021) https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf



Cydnabyddiaeth Hawlfraint © Andre Dib / WWF-Brazil



Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

Dros Ddyfodol gyda Choedwigoedd | sizeofwales.org.uk/cy/

Mae Maint Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1143178) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (07549344).